

YSGOL GYNRADD HAFODWENOG



POLISI lechyd ac Hylendid

Y POLISI IECHYD A HYLENDID **YSGOL GYNRADD HAFODWENOG**

Mae ein hysgol yn cynnal safon uchel o iechyd a hylendid yn ei gwaith beunyddiol gyda phlant ac oedolion. Caiff hyn ei gyflawni yn y ffyrdd canlynol:

IECHYD

Salwch

- Os caiff plentyn ddamwain yn yr ysgol byddwn yn rhoi Cymorth Cyntaf yn ôl y galw ac yn anfon nodyn adref i'r rhieni yn rhoi manylion y digwyddiad. Caiff rhieni eu hysbysu bob amser dros y ffôn os bydd plentyn wedi cael trawiad i'w ben/i'w phen.
- Os bydd plentyn yn mynd yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol bydd yn cael ei asesu gan yr athro dosbarth ac aelod o'r staff Cymorth Cyntaf i benderfynu a ddylai fynd adref. Os felly, caiff y rhieni neu gysylltiadau eraill wybod dros y ffôn.
- Rydyn ni'n gofyn i rieni gadw eu plant gartref os oes ganddyn nhw haint a rhoi gwybod i'r ysgol beth sy'n bod arnyn nhw. Byddwn yn hysbysu rhieni eraill os bydd perygl i'r haint ledaenu.
- Rydyn ni'n gofyn i rieni gadw eu plant gartref os ydyn nhw wedi bod yn chwydu neu wedi cael dolur rhydd hyd nes bydd 24 awr wedi mynd heibio ers y pwl diwethaf.
- Caiff briw neu friwiau agored eu glanhau a'u gorchuddio gyda gorchudd. Rhoddir gorchudd oer dros y clwyf.
- Mrs Bethan James sydd yn gyfrifol am gwneud awdit ar y cyfarpar cymorth cyntaf ac yn sicrhau eu fod yn cael ei adnewyddu a'i llenwi fel y bo'r galw. Pan yn defnyddio offer/deunydd sy'n brin, cyfrifoldeb yr athro/unigolyn yw hysbysu Mrs Bethan James fod angen archebu mwy. Caiff eitemau di-haint eu cadw yn y pecynnau dan sêl hyd nes bo'u hangen. Ar ymweliadau o'r ysgol bydd pecynnau Cymorth Cyntaf Teithio yn cael eu cario. Caiff deunyddiau cymorth cyntaf diogel eu taflu ymaith mewn sachau sbwriel.
- Dyma'r ddolen i'r canllawiau mwyaf diweddar ar y Cyfnodau Dreori (Incubation Periods)
<https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/nipcm/a-z-pathogens/>
- Os bydd plentyn yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn, dilynir y gweithdrefnau canlynol:

Ni fydd staff yr ysgol yn rhoi meddyginiaeth, oni bai fod argyfwng ee sioc anaffylactig neu oni bai bod ffurflen ganiatad wedi cael ei llenwi gyda'r rhieni. Mae croeso i rieni alw yn yr ysgol i roi meddyginiaeth pan fydd angen. Rhaid i unrhyw feddyginiaeth fel anadlydd ar gyfer asthma, neu foddion fod â label clir ag arno enw'r plentyn. Rhaid cael gwybodaeth ysgrifenedig gan y rhieni yn rhoi cyfarwyddiadau clir am y dos a sut i roi'r feddyginiaeth. Byddwn yn helpu plant iau i ddefnyddio anadlydd ar yr amod y ceir caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni.

- Os oes alergedd arbennig gan blentyn mae angen tynnu llun o'r plentyn a rhoi gwybodaeth clir am yr alergedd, y symptomau a'r driniaeth ar hysbysfwrdd y staff yn yr ystafell athrawon. Cyfrifoldeb yr athro dosbarth yw gwneud hyn ac i sicrhau bod holl aelodau staff yr ysgol yn ymwybodol o anghenion y disgyblion.
- Os oes yna blentyn sydd ag alergedd difrifol ac yn defnyddio epipen fe fydd disgwyl i'r athro dosbarth hysbysu'r nyrs ysgol er mwyn trefnu hyfforddiant rheolaidd i holl staff yr ysgol. Dylid cadw'r epipen/piriton mewn lle canolog a chyfrifoldeb yr athro dosbarth yw cadw llygad ar y feddiginiaeth a sicrhau bod dyddiad arno yn iawn. Rhaid cofio mynd a'r feddiginiaeth berthnasol ar unrhyw drip ysgol.

Gwybodaeth

- Caiff rhieni gyfle i drafod materion iechyd gyda staff yr ysgol a byddan nhw'n medru gweld pob gwybodaeth sydd ar gael i'r ysgol.
- Bydd yr ysgol yn cynnal cysylltiadau ag ymwelwyr iechyd a nyrs yr ysgol. Byddwn yn cael gwybodaeth a chynghor o wasanaethau'r awdurdod iechyd lleol a/neu asiantaethau iechyd eraill.
- Nid ydym yn caniatáu smygu yn unman ar dir yr ysgol
- Nid ydym yn caniatáu cŵn yn unman ar dir yr ysgol.

HYLENDID

I atal haint rhag lledaenu, bydd oedolion yn sicrhau y cedwir at yr arferion da canlynol:

Hylendid personol

- Golchi dwylo ar ôl bod yn y toiled ac ar ol garddio neu drin anifeiliaid.
- Sicrhewn bod y plant yn cael hyfforddiant cyson am lendid a chadw'r corff yn lan.
- Nid yw plant â thyllau yn eu clustiau yn cael gwisgo neu rannu clustdylsau ei gilydd
- Annogir plant i chwythu eu trwyn pan fydd angen. Caiff hancesi brwnt eu taflu i ffwrdd yn y modd priodol.
- Annogir plant i orchuddio eu cegau wrth beswch.
- Dylai rhieni ddarparu digon o ddeunyddiau glanweithiol i'r merched lle bo angen. Gellir cadw cyflenwadau mewn bag pwrpasol mewn cwpwrdd yn y toiledau staff. Mae biniau perthnasol ar gael i waredu'r cadachau.
- Annogir y plant i newid ar gyfer Addysg Gorfforol ac i newid yn ol i'w dillad glan wedi hynny.
- Cedwir at y safonau hylendid sylfaenol yn nhoiledau'r Ysgol
- Dyma'r dolen i'r ffurflen wybodaeth ar sut i drin Llau Pen <https://www.nhs.uk/conditions/head-lice-and-nits/>
- Mae'r ysgol yn rhan o Gynllun Gwen
Mae'r Cynllun Gwên yn gweithio gyda theuluoedd a phlant ifanc rhwng 0 a 7 oed.
Mae'n annog hylendid y geg mewn sawl ffordd:

rhoi cyngor i deuluoedd a darparu brwshys dannedd a phast dannedd fflworid

annog ymweliad â'r deintydd cyn i'r plentyn fod yn 1 oed

rhaglen iechyd deintyddol ar gyfer plant hyd at 7 oed mewn meithrinfa neu ysgol gynradd. Mae hyn yn cynnwys brwsio dannedd yn ddyddiol a rhoi farnais fflworid ddwywaith y flwyddyn

Hylendid personol wrth goginio

- Sicrhewn bod ein plant yn ymwybodol ac yn cynnal safonau hylendid uchel wrth baratoi bwyd neu goginio yn yr ysgol.
- Disgwylir i'r merched a gwallt hir i glymu eu gwallt yn ol. Gorchuddir ddillad bob dydd a ffedogau.
- Coginir mewn llefydd addas yn yr ysgol sy'n cael eu glanhau'n lan cyn dechrau.
- Dysgir i'r plant am arfer dda storio bwyd a'r hyn sydd angen gwneud i osgoi croeshalogi.
- Cedwir y cynhwysion mewn lle addas, oer.

Hylendid wrth drin ag unrhyw anifail.

- Sicrhewn bod poster i fyny i atgoffa'r plant i olchi eu dwylo yn drwyadl ar ol trin unrhyw anifail yn yr ysgol.

- Darperir sanitizers yn ogystal os ydy'r plant eisiau eu denyddio ond pwysleisiwn mai nid yn lle golchi dwylo y darperir y rhain.

Plant mewn cewynnau

- Byddwn yn gwneud ein gorau i fodloni anghenion pob plentyn. Os bydd angen byddwn yn newid cewynnau plant iau ar fat ar y llawr yn y Blynnyddoedd Cynnar. Ar gyfer plant hŷn byddwn yn defnyddio cyfleusterau'r toiledau anabl. Bydd pob aelod o staff wedi cael gwiriad uwch y CRB a byddant yn medru newid cewynnau.
- Bydd staff yn gweithio'n agos gyda'r gweithwyr proffesiynol gofal iechyd lle bo angen.
- Bydd y rhieni yn darparu cewynnau, sachau i'w taflu ymaith ac unrhyw hylifau glanhau neu eli.
- Wrth ddelio gyda digwyddiad bydd y staff yn gwisgo menig a ffedogau y gellir eu taflu ymaith
- Bydd cewynnau brwnt yn cael ei lapio ddwywaith cyn eu taflu ymaith neu'n cael eu rhoi mewn uned lanwaith bwrpasol os yw'r nifer yn fwy na'r hyn a ganiateir yng nghanllawiau'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch.
- Bydd y lle newid cewynnau a'r mat yn cael eu glanhau bob tro wedi iddynt gael eu defnyddio, a gofelir bod y dwylo'n cael eu golchi.
- Bydd y staff yn crybwyll unrhyw ofid anarferol sydd gan blentyn, neu bryderon eraill, i swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr ysgol.

Glanhau a chlrrio

- Caiff unrhyw ddafnau o waed neu gyfog eu clirio a'u taflu ymaith. Caiff carthion eu taflu i lawr y toiled. Defnyddir menig y gellir eu taflu ymaith bob tro wrth glirio hylifau corfforol. Caiff lloriau a manau eraill eu diheintio â chlorin neu gannydd iodine (*iodine bleach*) wedi'i wanhau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Caiff deunyddiau a heintiwyd â hylifau corfforol eu golchi'n drwyadl mewn dŵr twym.
- Bydd dillad isaf glân a dillad arall ar gael rhag ofn i ddamwain ddigwydd, ynghyd â bagiau polythen i lapio dillad brwnt. Caiff plant eu hannog i newid a glanhau eu hunain.
- Caiff pob arwyneb eu glanhau bob dydd gyda hylifau glanhau priodol.

Bwyd

Bydd yr ysgol yn cadw at y ddeddfwriaeth gyfredol ynghylch hylendid bwyd, cofrestru a hyfforddi.

Yn enwedig, bydd pob oedolyn yn:

- Golchi ei ddwylo bob amser o dan dap agored cyn trin bwyd ac ar ôl defnyddio'r toiled.
- Peidio â pharatoi bwyd os yw'n dioddef o unrhyw salwch heintus neu drafferth gyda'r croen.
- Peidio â pheswch na thisian dros fwyd

- Defnyddio clytiau glanhau gwahanol ar gyfer y gegin a'r toiledau
- Paratoi bwyd amrwd a bwyd wedi ei goginio mewn mannau gwahanol
- Cadw bwyd dan orchudd a naill ai mewn oergell neu'n gwbl dwym yn ôl y galw.
- Sicrhau fod gwastraff yn cael ei daflu'n briodol ac allan o gyrraedd plant. Cadw clawr ar y bin sbwriel a golchi dwylo ar ôl ei ddefnyddio.
- Golchi ffrwythau a llysiau'n drwyadl cyn eu defnyddio.

Mae'r Clwb Brechwast a'r Clybiau Allgyrsiol a ddarperir yn dilyn y canllawiau mwyaf diweddar o ran atal a rheoli heintiau yn lledaenu.

Os bydd angen twymo unrhyw fwyd neu ddiod dylid gwneud hynny'n union cyn ei weini ac ni ddylid ei adael i sefyll. Ni chaiff unrhyw fwyd na diod i blant ei ail-dwymo.

Caiff tywelion llestri eu cadw'n lân ac mewn man heb lwch e.e. cwpwrdd caeedig neu ddrôr. Ni ddefnyddir llestri wedi cracio.

Caiff y feicrodon ei glanhau'n rheolaidd.

Rhaid cadw bocsys bwyd mewn man addas neu roi pecyn oer yn y boc.

Cyfrifoldeb y disgyblion fydd cadw eu poteli dŵr yn lân.

Fel ysgol, rydym yn hyrwyddo Erthygl 24 o Hawliau Plant :

Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glan, bwyd maethlon ac amgylchedd glân iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Cyfrifoldebau'r Disgyblion

Disgwylir i bob disgybl:

1. Fod yn gyfrifol am eu diogelwch eu hunain a'u cyd-ddisgyblion.
2. Gwisgo gwisg ysgol, dillad chwaraeon i ymarfer corff, esgidiau addas ar gyfer y tu mewn i'r ysgol ac esgidiau priodol ar gyfer y tu allan.
3. Ar gyfer Addysg Gorfforol, dylid naill ai tynnu clustdlysau neu eu gorchuddio a thâp, sydd i'w ddarparu gan y rhieni. Ni fydd y staff yn tynnu clustdlysau'r plant.
4. Cadw at reolau diogelwch yr ysgol ac yn enwedig cyfarwyddiadau'r staff addysgu mewn argyfwng;
5. Defnyddio a pheidio â chamddefnyddio'n fwriadol, esgeuluso nac ymyrryd â phethau a ddarperir at ddibenion diogelwch.

Bydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth yn rhoi gwybod i ddisgyblion a'r rhieni am y cyfrifoldebau hyn drwy gyfarwyddyd uniongyrchol, wefan, hysbysiadau a llawlyfr yr ysgol.

